



Office for Nuclear Regulation (ONR) Site Report for Wylfa

Report for period 1 July - 31 December 2017

Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Wylfa SSG and are also available on the ONR website (<http://www.onr.org.uk/llc/>).

Site inspectors from ONR usually attend SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact ONR.

TABLE OF CONTENTS

1	INSPECTIONS	3
2	ROUTINE MATTERS.....	3
3	NON-ROUTINE MATTERS.....	4
4	REGULATORY ACTIVITY	5
5	NEWS FROM ONR.....	5
6	CONTACTS.....	6

1 INSPECTIONS

1.1 Dates of inspection

The ONR site inspector made inspections on the following dates during the reporting period 1st July to 31st December 2017

3-4 July
25-27 July
14 September
20-21 September
24-26 October
4-7 December

An ONR fire safety specialist inspector undertook an inspection on 14 September. ONR conventional safety specialist inspectors undertook an inspection on 19 July.

2 ROUTINE MATTERS

2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013
- the Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 1999 (IRR99) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, routine inspections of Wylfa covered the following:

- examination, maintenance, inspection and testing;
- management of operations including control and supervision;
- staff training, qualifications and experience;
- modifications to plant, equipment and safety cases;
- plant construction and/or commissioning;
- emergency preparedness;
- radiological protection;
- radioactive waste management;
- decommissioning;
- organisational changes;
- quality assurance and records;
- industrial safety;

In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. However, where improvements

were considered necessary, the licensee made satisfactory commitments to address the issues, and the site inspector will monitor progress during future visits. Where necessary, ONR will take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented to reasonably practicable timescales.

Dry Store Cell 4 (DSC 4) - Intermediate level radioactive waste (ILW) recovery

Magnox Limited (ML) is undertaking a programme of work to retrieve remaining ILW from DSC 4 into waste packages which are suitable for long-term storage. ML requested ONR approval under its arrangements to lift the hold point to commence retrieval of DSC4 ILW. Following assessment of the safety case and readiness inspection to gain evidence to inform its permissioning decision, ONR lifted the hold point and ML has commenced retrieval operations.

Improvement Notice Close-Out

On 31st July 2017, ONR wrote to ML confirming that it had complied with the requirements of Improvement Notice requiring ML to review (and if necessary revise) the documented arrangements for managing asbestos containing materials present on the Wylfa licensed site.

ONR considered that notwithstanding the work ML had undertaken to date, concerns remain regarding the risk presented by asbestos containing materials (ACMs) located at the Wylfa site. ML also has a substantial amount of work outstanding to fully implement the revised arrangements. These need to translate into actions that result in asbestos hazard and associated risk reduction at the Wylfa site.

As a result, regulatory attention will be maintained by ONR to ensure ML maintains the necessary focus on asbestos management at the Wylfa site and the need for further regulatory action will be considered as this work progresses.

Emergency Exercise Charlie 17

ONR inspectors witnessed “Exercise Charlie 17”, a safety exercise designed to demonstrate the effectiveness of the post-generation emergency arrangements at Wylfa. The inspectors judged that the elements of the exercise witnessed demonstrated a good level of command and control. During the meeting immediately following the exercise ONR confirmed that it had identified only minor areas for improvement; these had also been identified by ML staff. Consequently, given the successful demonstration exercise, the improvements established from the previous exercise and identifying further areas for improvement from this exercise the arrangements were judged by ONR to be adequate.

2.2 Other work

The site inspector held a periodic meeting with safety representatives, to support their function of representing employees and receiving information on matters affecting their health, safety and welfare at work.

3 NON-ROUTINE MATTERS

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee’s response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were no such matters or events of significance to report during the period.

4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site licence conditions, ONR issues regulatory documents, which either permit an activity or require some form of action to be taken; these are usually collectively termed 'Licence Instruments' (LIs), but can take other forms. In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety.

No LIs or Enforcement Notices were issued during the period.

5 NEWS FROM ONR

New nuclear power station design approved

The UK Advanced Boiling Water Reactor (UK ABWR), designed by Hitachi-GE, is suitable for construction in the UK, the regulators confirmed following completion of an in-depth assessment of the nuclear reactor design. The Office for Nuclear Regulation (ONR), the Environment Agency and Natural Resources Wales, the regulators who undertake the Generic Design Assessment of new reactor designs, are satisfied that this reactor meets regulatory expectations on safety, security and environmental protection at this stage of the regulatory process.

ONR has issued a Design Acceptance Confirmation (DAC) and the environment agencies have issued a Statement of Design Acceptability (SoDA) to Hitachi-GE.

Step 2 of nuclear reactor assessment

We also announced on 16 in November that we are progressing to the next phase of our assessment of General Nuclear System Ltd's UK HPR1000 reactor technology. This means we will now begin the technical assessment phase. Additionally, all members of the public can give their views and find out more information about the design by going to UKHPR 1000 website at www.ukhpr1000.com

ONR response to BEIS impact assessment

The Department for Business, Energy and Industrial Strategy (BEIS) has recently published its Impact Assessment of the Nuclear Safeguards' Bill and that makes reference to ONR's regulation. We contacted BEIS to clarify two points within the document as part of our ongoing constructive engagement with them to develop a domestic safeguards regime as part of exiting Euratom. The first is that ONR regulates the nuclear industry, it does not provide services to it. Secondly, the Government's policy has developed since the assessment was undertaken and the intention is to put in place a regulatory framework which is robust and as comprehensive as Euratom. This means that we are not in a position to identify potential efficiencies in our regulatory approach at this stage.

As we support BEIS in its development of secondary legislation, we will provide advice to the Government to inform the anticipated impact assessment for nuclear safeguards regulation.

6 CONTACTS

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS

website: www.onr.org.uk

email: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication please visit <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Office for Nuclear Regulation, 2018

If you wish to reuse this information visit www.onr.org.uk/copyright.htm for details.

Published 01/18

For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf - 30 Rhagfyr 2017

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i drefnu bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio'n perthyn i'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau i aelodau ar gyfer SSG Wylfa a hefyd maent ar gael ar y wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/llc/>).

Fel arfer mae arolygwyr ONR yn mynychu cyfarfodydd SSG ble cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynghylch materion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

TABL CYNNWYS

1	AROLYGIADAU.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
2	MATERION ARFEROL.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
3	MATERION ANARFEROL.....	4
4	GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL.....	5
5	NEWYDDION GAN ONR.....	5
6	CYSYLLTIADAU.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

1 AROLYGIADAU

1.1 Dyddiadau arolygu

Fe wnaeth yr arolygydd safle ONR arolygiadau ar y dyddiadau dilynol yn ystod y 1af Gorffennaf i 31ain Rhagfyr 2017

3-4 Gorffennaf
25-27 Gorffennaf
14 Medi
20-21 Medi
24-26 Hydref
4-7 Rhagfyr

Ymgwymerodd arolygydd arbenigol diogelwch tân ONR ag arolygiad ar 14 Medi.
Ymgwymerodd arolygwyr arbenigol diogelwch confensiynol ONR ag arolygiad ar 19 Gorffennaf.

2 MATERION ARFEROL

2.1 Arolygiadau

Gwneir arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiad â:

- yr amodau a atodir gan ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedwr ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau a atodir i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithredu fel ei gilydd.

Yn y cyfnod hwn, roedd arolygiadau o (safle/gorsaf) yn cwmpasu'r dilynol:

- archwilio, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
- rheoli gweithrediadau gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;
- hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;
- addasiadau i offer, cyfarpar ac achosion diogelwch;
- adeiladu ac/neu gomisiynu offer;
- parodrwydd am argyfwng;
- diogelwch radiolegol
- rheoli gwastraff ymbelydrol;
- dadgomisiynu;
- newidiadau sefydliadol;
- sicrwydd ansawdd a chofnodion;
- diogelwch diwydiannol:

Yn gyffredinol, fe wnaeth ONR farnu bod y trefniadau oedd wedi'u gwneud a'u gweithredu gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle ystyriwyd bod angen gwelliannau, fe wnaeth y trwyddedai ymrwymiadau boddhaol i drafod y problemau, a bydd yr arolygydd safle'n monitro cynnydd yn ystod ymweliadau'r dyfodol. Lle bydd angen, bydd ONR yn cymryd camau gorfodi rheoleiddiol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau unioni yn ôl amserlenni rhesymol ymarferol.

Cell Storio Sych 4 (DSC4) – Adfer Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW)

Mae Magnox Cyf yn ymgymryd â rhaglen waith i adfer ILW sy'n weddill o Gell Storio Sych 4 i becynnau gwastraff sy'n addas ar gyfer storio hirdymor. Gofynnodd ML am gymeradwyaeth ONR o dan ei drefniadau i godi'r pwynt dal i ddechrau adfer DSC4 ILW. Yn dilyn asesiad o'r achos diogelwch a'r arolygiad parodrwydd i gael tystiolaeth i lywio ei benderfyniad ynghylch rhoi caniatâd, cododd ONR y pwynt dal ac mae ML wedi cychwyn gweithrediadau adfer.

Cau Allan yr Hysbysiad Gwella

Ar 31ain Gorffennaf 2017, ysgrifennodd ONR at ML yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad Gwella sy'n ei gwneud yn ofynnol i ML adolygu (ac os oes angen adolygu'r) trefniadau dogfenedig ar gyfer rheoli deunyddiau sy'n cynnwys asbestos sy'n bresennol ar safle trwyddedig Wylfa.

Roedd ONR yn ystyried, er gwaethaf y gwaith a wnaed gan ML hyd yn hyn, bod pryderon yn parhau ynghylch y risg a gyflwynir gan ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACM) a leolir ar safle Wylfa. Mae gan ML hefyd lawer iawn o waith sy'n weddill i weithredu'r trefniadau diwygiedig yn llawn. Mae angen i'r rhain drosi'n gamau sy'n arwain at leihau perygl asbestos a risgiau cysylltiedig ar safle Wylfa.

O ganlyniad, bydd ONR yn cynnal sylw rheoleiddiol i sicrhau bod ML yn cadw'r ffocws angenrheidiol ar reoli asbestos ar safle Wylfa a bydd yr angen am gamau rheoleiddio pellach yn cael eu hystyried wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Ymarfer Argyfwng Charlie 17

Gwelodd arolygwyr ONR "Ymarfer Charlie 17", ymarfer diogelwch a gynlluniwyd i ddangos effeithiolrwydd y trefniadau argyfwng ôl-gynhyrchu yn Wylfa. Barnodd yr arolygwyr fod elfennau'r ymarfer a welwyd yn dangos lefel dda o orchymyn a rheolaeth. Yn ystod y cyfarfod yn syth ar ôl yr ymarfer, cadarnhaodd ONR ei fod wedi nodi dim ond meysydd bach i'w gwella; roedd y rhain hefyd wedi eu nodi gan staff ML. O ganlyniad, gan fod yr ymarfer arddangos wedi bod yn llwyddiannus, roedd y gwelliannau a sefydlwyd o'r ymarfer flaenorol a nodi meysydd pellach i'w gwella o'r ymarfer hon, barnodd ONR fod y trefniadau'n ddigonol.

2.2 Gwaith arall

Cynhaliodd yr arolygydd safle gyfarfod cyfnodol gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli cyflogaion a derbyn gwybodaeth ynghylch materion sy'n effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedeion gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anarferol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau a gymerir i weithredu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod.

4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffuriad â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod rhyw fath o gamau'n cael eu cymryd; fel arfer gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant ymddangos ar ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd LIs na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

5 NEWYDDION GAN ONR

Cynllun gorsaf ynni niwclear newydd wedi'i gymeradwyo

Mae'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU (UK ABWR), a gynlluniwyd gan Hitachi-GE, yn addas i'w adeiladu yn y DU, cadarnhaodd y rheoleiddwyr ar ôl cwblhau asesiad manwl o'r cynllun adweithydd niwclear. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR), Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, y rheoleiddwyr sy'n ymgymryd â'r Asesiad Cynllun Generig o gynlluniau adweithyddion newydd, yn fodlon bod yr adweithydd hwn yn diwallu disgwyliaid rheoleiddiol ar ddiogelwch, diogeledd ac amddiffyniad amgylcheddol ar yr adeg hon o'r broses reoleiddio.

Mae ONR wedi cyhoeddi Cadarnhad o Dderbyn Cynllun (DAC) ac mae'r asiantaethau amgylcheddol wedi cyhoeddi Datganiad o Dderbynioldeb Cynllun (SoDA) i Hitachi-GE.

Cam 2 o'r asesiad adweithydd niwclear

Fe wnaethom gyhoeddi hefyd ar 16 ym mis Tachwedd ein bod yn symud ymlaen i gam nesaf ein hasesiad o dechnoleg adweithydd HPR1000 General Nuclear System Ltd. Mae hyn yn golygu y byddwn ni yn awr yn dechrau'r cyfnod asesu technegol. Yn ogystal, gall pob aelod o'r cyhoedd roi eu barn a dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynllun trwy fynd i wefan UKHPR 1000 yn www.ukhpr1000.com

Ymateb ONR i'r asesiad effaith BEIS

Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) wedi cyhoeddi ei Hasesiad Effaith o'r Mesur Trefniadau Diogelu Niwclear yn ddiweddar ac sy'n cyfeirio at waith rheoleiddio ONR. Fe wnaethom gysylltu â BEIS i egluro dau bwynt o fewn y ddogfen fel rhan o'n hymgysylltiad adeiladol parhaus â nhw i ddatblygu trefn fesurau diogelu ddomestig fel rhan o ymadael ag Euratom. Y cyntaf yw bod ONR yn rheoleiddio'r diwydiant niwclear, nid yw'n darparu gwasanaethau iddo. Yn ail, mae polisi'r Llywodraeth wedi datblygu ers i'r asesiad gael ei wneud a'r bwriad yw sefydlu fframwaith rheoleiddio sy'n gadarn ac mor gynhwysfawr ag Euratom. Mae hyn yn golygu nad ydym mewn sefyllfa i nodi arbedion posibl yn ein hymagwedd reoliadol ar hyn o bryd.

Gan ein bod yn cefnogi BEIS yn ei ddatblygiad o ddeddfwriaeth eilaidd, byddwn ni'n rhoi cyngor i'r Llywodraeth i lywio'r asesiad effaith a ragwelir ar gyfer rheoleiddio mesurau diogelu niwclear.

6 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersey
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2018

Os dymunwch aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 01/18

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.